Department for Environment Food & Rural Affairs

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

Environment Agency

Rhaglen Ymchwil ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

Ymgysylltu cymunedol ar ymaddasu i newid hinsawdd – adolygiad tystiolaeth

O'r prosiect: Gweithio gyda'n gilydd i ymaddasu i hinsawdd sy'n newid: llifogydd ac arfordir FRS17192

Cefndir
Mae'r adolygiad tystiolaeth hwn yn rhan o brosiect mwy sy'n edrych ar ymgysylltu cymunedol ar gyfer ymaddasu i berygl llifogydd ac erydu arfordirol yn yr hirdymor.

Gall newid hinsawdd gynyddu llifogydd neu erydu arfordirol ar gyfer nifer o gymunedau. Nod y prosiect hwn yw datblygu dulliau ymgysylltu ynghylch peryglon newid yn yr hinsawdd ac opsiynau ar gyfer y dyfodol mewn lleoliadau lle na fydd mesurau presennol yn gweithio yn yr hirdymor.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd eisiau gweithio'n agos gyda chymunedau a effeithir i'w helpu i wneud penderfyniadau ynghylch eu dyfodol. Mae'r prosiect hwn yn cynhyrchu adnoddau ar gyfer ymarferwyr a'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau er mwyn arwain y broses ymgysylltu gydweithredol hon.

Pam mae angen y prosiect hwn?
Mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd ac awdurdodau rheoli risg eraill gorff sylweddol o wybodaeth am ymgysylltu ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Fodd bynnag, mae llai o dystiolaeth o ran sut i ymgysylltu'n effeithiol â chymunedau sy'n wynebu lefelau amddiffyn cyfyngedig rhag llifogydd ac erydu arfordirol. Mae angen arweiniad cynhwysfawr ar ymarferwyr a'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch arfer da, rhwystrau i lwyddiant a'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer proses ymgysylltu allai fod yn gymhleth ac yn hir.

Bydd y prosiect hefyd yn darparu tystiolaeth ar gyfer gweithredu Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol newydd ar gyfer Lloegr. Diben y Strategaeth yw helpu i greu lleoedd sy'n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd. Bydd lleoedd ar y blaen yn cael eu nodi, gyda help y prosiect hwn, i dreialu proses o gynhyrchu dulliau ymaddasol mewn cydweithrediad â phartneriaid lleol. Bydd hyn yn arwain at ddatblygu fframwaith cenedlaethol i nodi camau a phenderfyniadau sydd eu hangen i weithredu dull ymaddasol o ymdrin â llifogydd ac erydu arfordirol. Bydd y gwersi a ddysgir o'r prosiect hwn yn bwydo i'r fframwaith cenedlaethol.

Beth ydym yn ei wneud?
Cynhaliwyd adolygiad tystiolaeth i gynhyrchu argymhellion ar gyfer treialu rhaglen ymgysylltu cymunedol mewn nifer o leoliadau.

Bydd y rhaglen ymgysylltu beilot yn cael ei chynllunio a'i gweithredu ar y cyd â sefydliadau'r llywodraeth, rhanddeiliaid a chymunedau. Bydd tîm y prosiect yn profi dulliau gwahanol o ymgysylltu, yn archwilio'r hyn fyddai'n helpu cymunedau lleol i ddeall ac ymateb i'r risgiau maent yn eu hwynebu, a rhannu'r gwersi a ddysgwyd yn eang.

Mae'n arbennig o anodd dweud wrth gymunedau efallai na fydd awdurdodau yn gallu eu hamddiffyn rhag llifogydd neu erydu arfordirol yn wyneb risgiau hinsawdd y dyfodol. Bydd y prosiect hwn yn nodi, yn mynd i'r afael â, ac yn darparu argymhellion ar gyfer goresgyn rhwystrau o ran ymgysylltu. Bydd adnoddau ymgysylltu ymarferol yn cael eu cynhyrchu i helpu awdurdodau rheoli risg i gynllunio, hwyluso a gwerthuso'r broses ymgysylltu.

Beth rydyn ni wedi ei ganfod hyd yn hyn?
Mae'r adolygiad tystiolaeth yn seiliedig ar asesiad o dros 300 o adroddiadau a phapurau academaidd. Mae argymhellion yn cynnwys:

- Asesu parodrwydd cymunedau, rhanddeiliaid ac awdurdodau i wneud penderfyniadau ynghylch ymaddasu.
- Ystyried sut mae ymgysylltiad pobl â lleoedd yn effeithio ar wneud penderfyniadau a newid yn lleol.
- Fframio materion mewn modd sensitif. Gall ddefnyddio iaith briodol gynyddu dealltwriaeth pobl o ymaddasu a lleihau dadleuon.
- Rhoi sylw i anghenion ac amodau lleol. Gosod nodau ymgysylltu realistig ar sail hyn.
- Mabwysiadu dull cyd-gynhyrchiol. Cynnwys ymarferwyr ymgysylltu, arbenigwyr technegol, artistiaid a phreswylwyr lleol.
- Defnyddio dulliau cyfranogol i adeiladu dealltwriaeth a gallu. Mae dulliau a awgrymwyd yn cynnwys efelychiadau, delweddu, adrodd straeon a dadansoddi gwrthdaro.

- Creu ffyrdd o rannu'r gwersi a ddysgwyd yn well o fewn awdurdodau rheoli risg.

Sut bydd y canfyddiadau yn cael eu defnyddio?
Mae canfyddiadau o'r gwaith ymchwil yn cael eu hanelu'n bennaf at ddwy gynulleidfa o fewn awdurdodau rheoli risg:

- y rhai sy'n gwneud penderfyniadau - i'w galluogi i wneud penderfyniadau mwy gwybodus ynghylch pwy y dylid ymgysylltu â nhw a phryd
- swyddogion ymgysylltu – i'w harfogi gydag adnoddau i weithio gyda chymunedau lle na fyddai cynnal lefelau amddiffyn rhag llifogydd ac erydu arfordirol yn ymarferol yn yr hirdymor

Mae'r crynodeb hwn yn ymwneud â gwybodaeth o brosiect FRS17192, yr adroddir amdano yn fanwl yn yr allbwn/allbynnau canlynol:

Adroddiad: FRS17192

Teitl: Gweithio gyda'n gilydd i ymaddasu i hinsawdd sy'n newid: llifogydd ac arfordir – adolygiad tystiolaeth

Mai 2019

Rheolwr prosiect: Kate Kipling, Cyfarwyddiaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

Rheolwr thema: Jacqui Cotton, Polisi, Strategaeth a Buddsoddi

Contractwyr ymchwil: Icarus Collective Ltd. Prifysgol Bradford.

Cafodd y prosiect hwn ei gomisiynu gan Gyfarwyddiaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Asiantaeth yr Amgylchedd, fel rhan o'r Rhaglen Ymchwil a Datblygu ar y cyd ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

Gwefan: http://evidence.environment-agency.gov.uk/FCERM/en/Default/FCRM.aspx

E-bost: fcerm.evidence@environment-agency.gov.uk

Ymholiadau: enquiries@environment-agency.gov.uk

© Asiantaeth yr Amgylchedd